

Ar ddydd Mawrth 22^{ain} Mehefin 2010 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00pm

PRESENNOL: Y Cyng. Trefor Davies (Cadeirydd); D R Morgan; Tegwyn Lewis; D Sheppard; R R Owen; Daniel Jones; Mrs Gwenan Price; Mrs K Walker; Melvyn Evans a'r clerc

- 2801 Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng. Mrs E Davies a D M Hughes
- 2802 **Materion Personol:** Dim
- 2803 **Datgan Buddiant Personol / Rhagfarnol:** Dim
- 2804 **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau'r Cofnodion fel cofnod cywir o (i) y CCB a (ii) y Cyfarfod Busnes a gynhaliwyd ar 18 Mai 2010.
Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:-
Cofnod 2778 Coed yn crogi dros y ffordd ger Cwrt Villa: Mae'r rhain wedi'u torri nôl gan y Comisiwn Coedwigaeth erbyn hyn.
Cofnod 2784 Tir Amwynder Dôl Helyg: Yr unig ymateb a gafwyd gan Geredigion oedd llythyr o gydnabyddiaeth gan Adran Gynllunio Ceredigion. PENDERFYNWYD hysbysu Mr Makaruk.
Cofnod 2789 Mandad Banc HSBC: Cadarnhaodd y Cyng. T Davies a D Sheppard eu bod wedi cwblhau'r ffurflenni Banc angenrheidiol
Cofnod 2800 Materion Priffyrdd Trefeurig: Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan adran Briffyrdd Ceredigion ynghylch gwrychoedd yn crogi dros y ffordd ger Penrhiwnewydd a Phont Tyngelli a'r bin graean sydd wedi dymchwel ar allt Cwmsaf, ffordd Cwmsymlog, nag ynghylch y cais gan drigolion Ystâd Tanyberth am ofod parcio ychwanegol.
- 2805 **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor**
Cyfarfod 'Shelter' yn Aberystwyth ar 25 Mai 2010: Cynrychiolodd y Cyng. D Sheppard y Cyngor. Digartrefedd a'r System Fudd-daliadau oedd ffocws y sgysiau. Rhoddwyd enghreifftiau o'r gwaith a wneir gan 'Shelter' i helpu pobl gyda phroblemau tai, lles a dyledion a'u hymdrechion i ryddhau'r stoc o dai gwag preifat (26,000 y llynedd) i helpu'r 91,000 o bobl sydd ar y rhestrau aros am dai yng Nghymru.
Cyfarfod yr elusen 'Talking Newspapers' yn Aberystwyth 29 Mai 2010
Mynychodd y Cyng. D Sheppard y cyfarfod yma oedd yn dathlu 40 mlynedd ers sefydlu'r Elusen a rhifyn 2000 o'r papur newydd sain lleol. Cafwyd arddangosfa o'r peiriannau digidol symlach a gwell sydd ar gael erbyn hyn i'r cleientiaid.
Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig: Ar 15 Mehefin mynchodd y Cyng. Trefor Davies y CCB lle'r adroddwyd bod gostyngiad rhesymol yn y taliadau sefydlog wedi'i gytuno gyda Scottish Power. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn edrych ar y posibilrwydd o sicrhau arian i brynu'r eiddo.
- Roedd ymateb y Cyngor i ohebiaeth/dogfennau fel a ganlyn:**
- 2806 **Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion:** Cydnabyddiaeth o ymateb CC Trefeurig i'r holiadur ynghylch y fformat a ffafir ar gyfer Cyfarfodydd Ymgynghori yn y dyfodol. PENDERFYNWYD ei nodi ac aros am fanylion y Cyfarfod nesaf.
- 2807 **Ardaloedd heb gludiant cyhoeddus:** Rhybudd ynghylch cyfarfod lleol posib i drafod Cynlluniau Cludiant Gwirfoddol. PENDERFYNWYD aros am fwy o wybodaeth
- 2808 **Ombwdsman Cymru – dogfen ymgynghori ar gynigion i sefydlu system gwynion gyffredin ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru:** Cytunodd y Cyng. R Owen i ddarllen y ddogfen ac adrodd arni yng nghyfarfod mis Gorffennaf.
- 2809 **Tân ac Achub – Cynllun Gweithredu Blynyddol Drafft 2011/2012:** PENDERFYNWYD ei basio mlaen i'r Cyng. DM Hughes ei ddarllen ac adrodd arno yng nghyfarfod mis Gorffennaf
- 2810 **Cylich Meithrin Trefeurig:** Gwahoddiad i Aelodau'r Cyngor i fynychu Bore Agored ar 24ain Mehefin rhwng 10.30 a 12.00. PENDERFYNWYD ei nodi
- Materion Ariannol**
- 2811 **Archwiliad Blynyddol 2009/2010:** Mae archwiliad blynyddol cyfrifon ariannol y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2010 wedi'i gwblhau gan Mr B Smith, yr Archwiliwr

Mewnol. Arwyddwyd Adran 4 o'r Ffurflen Flynyddol ganddo. Adroddwyd nad oedd yna unrhyw faterion oedd yn peri pryder. Rhoddwyd copi o adroddiad yr Archwiliwr i bob aelod. Mynegodd y Cyngor ei werthfawrogiad o'r gwaith a wnaed gan Mr Smith.

O 16 Awst 2010 i 29 Awst 2010 gosodir hysbysiadau yn rhoi gwybod i'r Cyhoedd y gallant weld Cyfrifon Cyngor Trefeurig rhwng 31ain Awst 2010 a 27ain Medi 2010.

- 2812 Adnewyddu Polisi Yswiriant y Cyngor 01 Mehefin 2010:** Gwnaed y gwelliannau y gofynnwyd amdanynt i ddogfen adnewyddu yswiriant y Cyngor ac ar 28 Mai 2010 anfonwyd siec o £1,086.24 i Aon Ltd, asiantwyr Allianz Insurance Co
- 2813 Fferm Wynt Nant y Moch – Cyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Cymunedol 2008/09**
Ar 16 Mehefin derbyniwyd siec o £45 gan SSE – ad-daliad costau teithio a hawliwyd gan y Cyng. K. Walker am fynychu pum cyfarfod o'r Grŵp Cyswllt yn Nhalybont.
PENDERFYNWYD talu'r siec i Gyfrif Cymunedol y Cyngor yn amodol ar gadarnhad gan y Swyddog Cyswllt bod popeth yn iawn gyda'r siec, sy'n dod o gyfrif preifat.
- 2814 HSBC - Balans Cyfrif Cymunedol ar 13 Mehefin 2010: £12,850.25.** Ar 21 Mehefin trosglwyddwyd £11,000 i'r Cyfrif Busnes. PENDERFYNWYD dychwelyd £3,000 i'r Cyfrif Cymunedol.
- 2815 Un Llais Cymru - Cyrsiau Hyfforddi 2010/2011:** Dosbarthwyd manylion y cyrsiau hyfforddi sydd ar gael. Doedd dim o'r aelodau am dderbyn y cynnig o gwrs ar hyn o bryd.
- 2816 Un Llais Cymru – Cynhadledd a CCB 2010 9 Hydref 2010, ym Mhonrhydfendigaid**
PENDERFYNWYD trafod pwy fydd yn mynychu'r Gynhadledd yng Nghyfarfod mis Gorffennaf.
Ni chafwyd unrhyw gynigion i'w cyflwyno i Bwyllgor y Gynhadledd.
Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:
- 2817 Linda Griffiths:** Cyfieithu Mai 2010 - £76.53 siec 992
- 2818 P Walker:** Cyflog y clerc Ebrill/Mehefin 2010 - £617.24 siec 993
- 2819 BT - Ffôn:** Galwadau a thaliadau hyd 10 Mehefin 2010 - £63.08 +Taw £10.25: £73.33. Siec 994
- 2820 B Smith:** Archwilio cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31/03/10 - £150. Siec 995

Cynllunio – nodwyd y penderfyniadau cynllunio canlynol:

- 2821 A090113** Ysgubor Newydd, Capel Madog – sied storio: cymeradwywyd
- 2822 A090769** Llain 2 Tir ger Glanseilo, Penrhyncoch – datblygiad preswyl: Gwrthodwyd
- 2823 A090873** Tir i'r gorllewin o Gwelfor, Penrhyncoch – sied amaethyddol: cymeradwywyd
- 2824 A100170** 104 Ger y Llan, Penrhyncoch – estyniad: cymeradwywyd
- 2825 A100194** 21 Maes yr efail, Penrhyncoch – estyniad: cymeradwywyd
- Sylwadau ar geisiadau cynllunio:**
- 2826 A100287** 11 Dolhelyg, Penrhyncoch – Estyniad deulawr: Dim sylwadau
- 2827 Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar ddydd Mawrth, 20 Gorffennaf 2010 yn Neuadd y Penrhyn am 7.00pm**
- 2828 Cytunwyd i gynnwys yr eitemau canlynol ar yr agenda:**
Wyneb y trac o Gwmerfyn i Pantygareg Hir wedi'i ddifrodi wrth y gyffordd â ffordd Cwmerfyn ger Capel Siloa.
Canghennau'n crogi drosodd gan achosi problemau i gerbydau uchel ar y trac o Gapel Siloa i Goginan
Tyllau mawr yn y ffordd rhwng Lôn Llety Spence â Chapel Siloa, Cwmerfyn; ar Lôn Bwlch y Dderwen, Penbonrhydybeddau a ger y fynedfa i Fferm Cwm Isaf, Penbonrhydybeddau.
Glaswellt wedi gordyfu ar ymyl a chanol y ffordd o Benrhyncoch i Salem.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.15pm.

